| | Barn gryno Cwestiwn 1<br>Safonau |
|---|---|
| | Adran Addysg Grefyddol |

**1.1 Cyflawniad a chynnydd mewn dysgu**

| | Cylch arsylwi gwersi | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cylch arsylwi | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| | **2016-2017** | | | | |
| 1 | Tymor yr Hydref 2016 | | | | |
| 2 | Tymor y Pasg 2017 | | | | |
| 3 | Tymor yr haf 2017 | | | | |
| | **2017-2018** | | | | |
| 1 | Tymor yr Hydref 2017 | | | | |
| 2 | Tymor y Pasg 2018 | | | | |
| 3 | Tymor yr haf 2018 | | | | |

| | Cylch craffu llyfrau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cylch arsylwi | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| | 2016-2017 | | | | |
| 1 | Tymor yr Hydref 2016 | | | | |
| 2 | Tymor yr Hydref 2016 | | | | |
| 3 | Tymor y Pasg 2017 | | | | |
| 4 | Tymor y Pasg 2017 | | | | |
| 5 | Tymor yr haf 2017 | | | | |
| | 2017-2018 | | | | |
| 1 | Tymor yr Hydref 2017 | * | | | |
| 2 | Tymor yr Hydref 2017 | | * | | |
| 3 | Tymor y Pasg 2018 | | | | |
| 4 | Tymor y Pasg 2018 | | | | |
| 5 | Tymor yr haf 2018 | | | | |

| Agwedd | Arfarniad |
|---|---|
| | |
| **Arfarniad agweddau a nodir yn fframwaith ESTYN** | |
| Galw i gof dysgu blaenorol. | Mae adroddiadau arsylwi gwersi Addysg Grefyddol yn nodi bod y disgyblion yn y gwersi a arsylwyd yn galw i gof y gwaith dysgu blaenorol yn dda iawn. |
| Datblygu medrau meddwl a chymhwyso i sefyllfaoedd newydd | Mae disgyblion yn ymateb yn dda iawn i`r cyfleoedd a ddarperir i ddatblygu sgiliau meddwl. Mae’r adran wedi datblygu rhain ymhellach ac hefyd wedi creu adnoddau medrau meddwl gwahaniaethol ar gyfer y dysgwyr ady. |
| Ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd, ac yn cymhwyso’r rhain i sefyllfaoedd newydd. | |
| **Agweddau eraill** | |
| Adfyfyrio mewn gwersi. | Mae disgyblion yn ymateb yn dda i`r cyfleoedd niferus i adfyfyrio mewn gwersi. Mae’r adran wedi cynllunio’r profiadau yma ar lefel uchel o fewn y cynllun gwaith e.e. cyfleoedd i asesu cyfoedion, hunan arfarnu tasgau ayyb (Gweler y cynlluniau gwaith). |
| Ateb cwestiynau estynedig | Mae bron bob un o’r disgyblion yn gallu ymateb yn estynedig ar lafar yn y pwnc. Yn sgîl disgwyliadau uchel sydd gan yr adran, sydd yn mynnu bod disgyblion yn ymateb yn estynedig ar lafar a’r gwaith caled mae aelodau o’r adran wedi rhoi i ddatblygu’r sgil yma o fewn y gwersi mae gan y disgyblion safon uchel iawn wrth ateb cwestiynau yn estynedig yn y gwersi Addysg Grefyddol. Mae’r adran hefyd wedi darblygu a chreu deunyddiau dysgu gan ddefnyddio Wordwall, ble mae yna gwestiynnau sydd wedi cael eu cynllunio o flaen llaw yn cael eu gofyn mewn gwersi. Mae’r modd mae’r cwestiynnau hyn yn cael eu gofyn (drwy’r olwyn ar wordwall er enghraifft) yn creu brwdfrydedd, a bod pawb eisiau cyfrannu yn y wers. Mae gallu’r disgyblion i ateb yn |

| | |
|---|---|
| | estynedig o ganlyniad i hyn wedi gwella. Mae'r adran hefyd wedi cynllunio'r cwestiynnau drwy ddefnyddio'r rhestr cwestiynnu cytunedig, sydd yn annog staf I ofyn cwestiynnau mewn ffordd sy'n mynnu atebion estynedig.<br><br>Mae yna gyfleoedd rheolaidd yn y pwnc i ateb cwestiynau yn estynedig e.e. cwestiynau gwerthuso, cyflwyno gwybodaeth (gweler y cynlluniau gwaith) ar draws yr ystod gallu. Mae'r adran yn darparu tasgau sydd yn herio'r disgyblion abl a thalentog ac mae'r adran yn darparu sgaffaldiau a fframiau ysgrifennu er mwyn cynorthwyo'r disgyblion ADY er mwyn sicrhau ei bod yn derbyn y gynhaliaeth er mwyn ateb yn estynedig yn ysgrifenedig. Mae`r elfen hon wedi datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn ac wedi cael effaith pellach ar ansawdd gwaith y disgyblion.Mae'r adran wrthi'n datblygu'r fframiau ymhellach er mwyn iddynt cydymffurfio efo techneg gwerthuso TGAU newydd eleni. Mae hyn felly yn ymestyn atebion y dysgwyr ymhellach ac I safon gyrsiau TGAU. O ganlyniad i'r gefnogaeth yma, mae safonau'r disgyblion wedi gwella.Mae angen i aelodau ffiniol o'r adran sicrhau bod dysgwyr sydd efo ady hefyd yn herio'r dysgwyr yma i ateb yn estynedig drwy ddefnyddio'r fframiau a'r cwestiynnu effeithiol o fewn y gwersi. |
| Ymwybyddiaeth disgyblion o safon eu gwaith a sut i wella. | Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda iawn o ansawdd eu gwaith a sut y gellir ei wella ymhellach drwy ddarpariaeth yr adran o gardiau marcio penodol ar gyfer tasgau penodol a'r polisi adrannol o ddefnyddio'r drefn o farcio 3* a dymuniad ar gyfer tasgau. Mae hyn wedi gwella ymwybyddiaeth disgyblion o safon eu gwaith a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn gwella yn arwyddocaol. Mae'r adran hefyd eleni wedi cynyddu'r elfen o ail ddrafftio gwaith ar ol ar ol gwneud sesiwn asesu cyfoedion. Mae'r dysgwyr wedi gweld gwerth o wneud hyn ac o ganlyniad yn gwneud cynydd yn eu gwaith drwy ymateb i waith marcio'r athro. |
| Cynnydd yn erbyn targedau. | Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da i gyflawni'r targedau a bennir iddynt gan yr athrawes. Mae ychydig yn cyflawni yn well na'r disgwyl. Cred yr adran mai adlewyrchiad o waith caled yr adran ar gyfer paratoi'r disgyblion ar gyfer yr arholiadau/ tasgau asesu penodol sy`n gyfrifol am y llwyddiant hwn. Mae angen i'r adran sicrhau bod bechgyn ar ddiwedd CA3 yn gwneud cynnydd drwy sichrau bod eu diddordeb, ymroddiad a chymhelliant tuag a ty pwnc yn cael ei gynnal drwy sicrhau bod themau fyddai at eu dant yn cael eu cyflwyno ar ddechrau blwyddyn 9 cyn iddynt weneud eu dewisiadau cyrsiau TGAU. Gan bod trefn gwneud hyn wedi newid, mae'r adran wedi ail edrych ar y cynllun gwaith er mwyn gwneud themau fydda'n apelio yn gynharach yn y flwyddyn.<br><br>Mae arsylwadau gwersi a chanlyniadau'r adran yn tystio fod disgyblion yn gwneud cynnydd da a rheolaidd mewn gwersi unigol. |
| Cynnydd disgyblion ADY at dargedau. | Mae disgyblion ADY yn gwneud cynnydd da yn y pwnc o ganlyniad i'r adran wneud defnydd effeithiol o gymhorthydd efo arbennigedd yn y pwnc wrth baratoi at yr arholiadau. Nid yw ambell ddisgybl wedi cyrraedd y targed a roddwyd iddynt yn y dadansoddiad CA4 eleni gan ni chafodd yr adran y defnydd o MH. Mae'r targedau wedi cael eu gosod, pan oedd yr adran o dan yr argraff ein bod yn cael cefnogaeth cymhorthydd. Mae'r adran yn rhagweld bod hyn am fod yn broblem eto eleni efo canlyniadau CA4 gan ond am 3 wythnos mewn ambell wers cafwyd y gefnogaeth yma. |

**Tystiolaeth**

- Fforwm disgyblion.
- Craffu ar waith ysgrifenedig ac ymarferol.
- Tystiolaeth arsylwi gwersi.

**1.3 Safonau a chynnydd mewn medrau**

| | Barn gryno Cwestiwn 1<br>Safonau |
|---|---|
| | **Adran Addysg Grefyddol** |

| | |
|---|---|
| **Agwedd** | **Arfarniad** |
| **Ysgrifennu** | Mae disgyblion galluog yn ysgrifennu'n ymestynnol iawn ac yn raenus yn y pwnc e.e. cwestiynau gwerthuso. Mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n dda yn eu hymatebion estynedig. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion, nad ydynt yn ysgrifennu'n ddigon cywir yn eu hymdrechion. Yn yr achosion hyn caiff gwaith ei gyflwyno i safon is ac mae ymgais gychwynnol disgyblion yn cynnwys gormod o wallau sillafu ac o ran mynegiant. Mae'r adran wedi ymateb i hyn drwy greu mpll ar gyfer tasgau sydd efo ffocws iaith benodol e.e. amser y ferf yn gywir ar gyfer y dasg benodol yna gydag enghraifft gywir o amser y ferf dylid ei ddefnyddio. Yn ogystal â hyn mae'r adran wedi datblygu'r arferiad o gynnwys lle ar y cardiau marcio er mwyn cywiro 3 camsillafiad o'r darn gwaith ar ôl i'r athro farcio'r gwaith. Mae'r adran hefyd yn dilyn polisi marcio'r ysgol yn ogystal â chynnwys taflen cywiro iaith y gyfadran yn llyfrau pob disgybl. Mae mwyafrif disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i`r gwaith hwn. O ganlyniad mae safonau yn gwella. Mae'r adran hefyd wedi dechrau defnyddio cardiau cywiro iaith yr ysgol ar gyfer ambell dasg estynedig o fewn y cynllun gwaith er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd y disgyblion ymhellach. O ganlyniad mae safonau ysgrifennu'r disgyblion wedi gwella. Mae'r adran hefyd wedi creu fframiau ysgrifenedig gwahaniaethol er mwyn cefnogi'r dysgwyr yn eu gwaith ysgriefenedig. Mae gan yr adran fframiau ysgrifennu penodol ar gyfer tasgau penodol ac rhai sydd wedi eu gwahaniaethu. Mae'r adran hefyd wedi meistrioli polisi'r ysgol ynglyn a dysgwyr yn ymateb i waith marcio'r athro a cheir tystiolaeth o hyn o fewn adroddiadau monitor llyfrau. Mae bron pob un disgybl yn ymateb I waith marcio'r athro yn annibynnol.<br>Mae angen i'r adran hefyd barhau i gefnogi'r athrawon di arbenigedd yn y pwnc er mwyn sicrhau eu bod yn ymestyn y disgyblion maent yn gyfrifol ohonynt- i safon disgwyliedig yr adran Addysg Grefyddol. |
| **Darllen** | Mae safonau darllen yn dda. Mae'r adran wedi datblygu hyn ymhellach, gan gyflwyno mwy o gyfleoedd o fewn y cynllun gwaith. O ganlyniad mae sgiliau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwella. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu ymdrin â deunydd darllen estynedig y pwnc yn dda iawn. Gall y mwyafrif o ddisgyblion ddilyn cyfarwyddiadau, crynhoi a thrawsieithu yn effeithiol. Mae disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig i'r gwaith hwn. Mae'r adran wedi darparu posteri sy'n datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o'r gwahanol sgiliau darllen ac mae taflenni mpll tasgau yn nodi pa sgil darllen bydd y disgyblion yn datblygu wrth gwblhau'r dasg mae hyn wedi gwella ymwybyddiaeth y disgyblion o'r gwahanol sgiliau darllen, a phryd ment yn ei defnyddio. Mae'r adran hefyd wedi cru mpll tasgau darllen ar gyfer tasgau o fewn y gwaith, gan esbonio'n glir I'r dysgwyr pa sgil darllen meant yn ddatblygu a'r hyn sydd angen ei wneud. Mae'r adran hefyd wedi datblygu'r sgil o graff ddarlen er mwyn dod o hyd I wybodaeth penodol a'r techneg o uwch oleuo ffeithiau/termau penodol gan ddilyn allwedd mae'r dysgwyr yn ei greu yn annibynnol.<br>Mae'r adran wedi paratoi deunyddiau gwahaniaethol ar gyfer y setiau isel ar draws CA3. Mae'r adran wedi gwahaniaethu'r cynllun gwaith blwyddyn 9 yn fanwl(deunyddiau/tasgau darllen) yn ogystal a 'r deunyddiau ar gyfer dysgu blwyddyn 7/8 ar y cy der wmyn sicrhau bod pob un yn gallu cymryd rhan gweithredol yn y tasgau yma ac yn gwneud cynnydd.. |
| **Gwrando** | Mae sgiliau gwrando'r disgyblion yn rhagorol. Mae sgiliau gwrando disgyblion ar ei gilydd ac athro yn uchel iawn. Ceir tystiolaeth o hyn yn adroddiadau arsylwi gwersi. |
| **Llafar** | Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gyfraniadau llafar o ansawdd da iawn yn y dosbarth. Mae tasgau penodol wedi cael ei darparu o fewn y cynllun gwaith er mwyn sicrhau bod pob disgybl yn cyfrannu o fewn gwersi e.e. tasgau sbardun ar gychwyn gwers, tasgau darlun o'r cof, gwaith par/grwp, trafodaeth ddosbarth ayyb. Mae'r adran wedi gweithio yn galed ar ddatblygu sgiliau'r disgyblion er mwyn ateb yn estynedig ar lafar. Yn ogystal mae'r drefn mae'r adran yn defnyddio o adolygu gwersi blaenorol ar gychwyn gwersi yn |

| | |
|---|---|
| | golygu bod pawb yn cael y cyfle i gyfrannu, mewn awyrgylch o barch a heb fygythiad. Mae'r adran hefyd wedi ceisio datblygu'r arfer o gwestiynnu'r dysgwyr gan ddefnyddio wordwall syd dyn gwneud y dysgwyr mwy awyddus I ymateb ar lafar er mwyn cael cymryd rhan yn y wers. Mae gan y mwyafrif o'r disgyblion feistrolaeth dda ar eirfa ddwyieithog a therminoleg pynciol anodd. Mae'r adran hefyd wedi datblygu cyfleoedd penodol ar gyfer asesu'r disgyblion ar lafar, yn ogystal a chreu taflenni hunan arfarnu tasgau llafar. |
| **Rhifedd a rhesymu** | Mae'r disgyblion yn cael cyfle digonol i wneud defnydd o sgiliau rhif yn eu gwaith yn y pwnc. Mae'r adran wedi gweithio er mwyn adnabod cyfleoedd ychwanegol o fewn y cynllun gwaith i ddatblygu sgiliau rhifedd y disgyblion o fewn y pwnc e.e. tasg crefyddau mawr y byd ym mlwyddyn 7, tasg cylch creu. Mae'r adran hefyd wedi datblygu'r tasg cylch creu ymhellach a chreu mpll rhifedd ar gyfer y dasg.<br>Mae'r dystiolaeth a welir yn llyfrau'r disgyblion dangos fod gan y disgyblion sgiliau da i fynd i`r afael â rhifedd o fewn y pwnc pan bod y cyflaeodd yn codi. |
| **Cwricwlwm digidol** | Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau TGCh i gyflawni amrywiaeth o dasgau o fewn y pwnc gan ddefnyddio meddalwedd gwahanol e.e. Microsoft Word, Publisher, PowerPoint<br>Mae`r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu cywain a thrawsieithu gwybodaeth o wahanol ffynonellau electronig gan greu cyflwyniadau addas i bwrpas a chynulleidfa e.e. Cyflwyniad PowerPoint 'How can we be better Stewards?'Taflen wybodaeth Nodweddion mewnol, Pamffled 'Croeso i'r Mosg'. Mae'r gwaith a gyflwynir gan y disgyblion o safon dda iawn. Mae'r adran wedi creu ambell i dasg er mwyn ceisio hyrwyddo'r fframwaith digidol drwy greu ambell dasg gan ddefnyddio'r ipads. Mae'r adran hefyd wedi datblygu'r arferiad o greu tasgau estynedig/gwaith cartref drwy ddefnyddio QR codes er mwyn gwneud gwaith ymchwil pellach neu er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'r thema yn well. |
| **Sgiliau pynciol** | Sgiliau pynciol a amlygir o fewn gwersi a llyfrau disgyblion. |
| **Sgiliau meddwl** | Mae sgiliau meddwl y disgyblion **yn dda iawn.** Gallant ymateb yn dda iawn i dasgau sy`n gofyn iddynt adnabod y strategaethau dysgu a ddefnyddiwyd mewn tasg yn effeithiol. Mae bron pob un disgybl yn gallu datrys y problemau a roddwyd iddynt o fewn y gwersi e.e. sut mae'r Sikhiaid yn dod yn aelod o'u crefydd? Ceir cyflaeoedd niferus iddynt ofyn cwestiynnau, ac yna ymdrechu I ddargangod yr atebion iddynt eu hunain erbyn diwedd y wers ayyb. Ma'r sgil o werthuso y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda, ac felly mae hyn yn rhoi'r cyfle iddynt werthuso syniadau amrywiol o fewn y pwnc e.e. " A ddylid ddod a'r Gosb Eithaf yn ol I Brydain?" |
| **Medrau creadigrwydd a chorfforol** | Mae yna amrywiaeth o gyflaeoedd I'r dysgwyr ddatblygu eu creadigrwydd o fewn y pwnc. Mae'r adran wedi adnabod tasgau penodol er mwyn datblygu creadigedd y dysgwyr o fewn y pwnc e.e. tasg Nicky Cruz, drama gwyrthiau Iesu, tasg ffenestri lliw. Gweler y cynlluniau gwaith am enghreifftiau penodol. Mae sgiliau creadigeddm y dysgwyr o fewn y pwnc yn dda. |
| **Mynediad i`r cwricwlwm** | Mae rhan fwyaf o'r dysgwyr yn datblygu'r medrau gofynnol o fewn y pwnc a cheir tasgau penodol o fewn y cynlluniau gwersi er mwyn datblygu sgiliau penodol o fewn tasgau penodol. Ceir mpll ar gyfer pob tasg estynedig sydd efo ffocws ar sgil penodol ar gyfer y dasg arbennig yna e.e. tasg cylch creu'r byd yn datblygu'r sgil o ddefnyddio trefnolion yn gywir. Gweler y cynlluniau gwaith am ragor o enghreifftiau. |
| **Tystiolaeth** | |
| • Tystiolaeth arsylwi gwersi.<br>• Adroddiadau craffu ar waith ysgrifenedig ac ymarferol.<br>• Fforwm disgyblion. | |
| **Y Gymraeg.** | |
| Safonau yn y Gymraeg | Mae ansawdd iaith lafar, darllen ac ysgrifennu'r disgyblion yn y Gymraeg yn dda iawn. Mae'r adran yn cywiro ar lafar lle bo'r angen os oes gair Saesneg yn cael ei ddefnyddio yn |

| | Barn gryno Cwestiwn 1<br>Safonau |
|---|---|
| | Adran Addysg Grefyddol |

| | |
|---|---|
| | hytrach na therm Cymraeg. Mae'r adran wedi datblygu'r arferiad o gael dysgwyr i ail gopïo darn gwallus o ysgrifennu yn gywir yn eu gwaith- ond mae angen datblygu'r arferiad yma ymhellach o fewn yr adran.<br><br>**Gwrando:** Mae`r athro yn addasu iaith yn ôl yr angen ar gyfer lefel dealltwriaeth dysgwr. O ganlyniad mae dysgwyr yn deall y gwaith ac yn teimlo'n hyderus o fewn y wers. Mae`r safonau yma yn dda. Mae adroddiadau arsylwi gwersi yn cefnogi hyn.<br><br>**Cynnydd Llafar: S**icrheir fod disgyblion yn cael cyfleoedd addas i ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar yn unol â'u gallu boed hynny ar lefel defnydd ymarferol cychwynnol neu wrth ymdrin â gwaith y wers. O ganlyniad mae dysgwyr yn magu hyder ac mae eu safonau llafar yn dda. Mae'r awyrgylch o fewn y gwersi yn un diogel ar gyfer y dysgwyr fel eu bod yn teimlo'n ddigon hyderus i fentro i adrodd ambell air yn y Gymraeg gyntaf a datblygu o fan hyn. Mae'r adran yn ganmoladwy iawn o'r defnydd lleiaf a wneir o'r Gymraeg ar y dechrau fel bod hyn yn eu sbarduno i ymdrechu ymhellach. Un enghraifft o hyn yw disgybl pontio yn nodi un o'r 10 Gorchymyn yn y Gymraeg.<br><br>**Cynnydd Sgiliau ysgrifennu:** Mae matiau iaith, sgaffaldiau a fframiau ysgrifennu gwahaniaethol yr adran o gymorth i ddysgwyr ysgrifennu darnau byr ac estynedig yn llwyddiannus. Yn sgîl y ddarpariaeth hon mae sgiliau ysgrifenedig dysgwyr yn dda iawn. Mae'r adran hefyd yn darparu termau pynciol yn ddwy ieithog ar gychwyn pob uned yn CA3.<br><br>**Cynnydd Sgiliau Darllen:** Ceir rhai cyfleoedd da i ddysgwyr ddarllen yn y Gymraeg ac mae hyn yn bennaf yn cynnwys taflenni gwaith, gwaith ymchwiliol ayyb. Mae adroddiadau arsylwi gwersi yn cefnogi'r defnydd effeithio a wneir o'r taflenni darllen. Yn sgîl y ddarpariaeth hon mae sgiliau darllen dysgwyr yn dda iawn. Mae gan yr adran mpll ar gyfer tasgau darllen penodol. Gwelir rhain o fewn LLyfrau'r adran. |
| Dilyniant ieithyddol | Mae`r adran yn darparu dilyniant ieithyddol rhagorol yn CA3 a CA4 gan ddilyn yr arweiniad ysgol gyfan a ddarperir. |
| Gweithredu strategaeth ôl ofal yr ysgol | Mae`r adran yn gweithredu strategaeth ôl ofal yr ysgol yn safonol yn ei holl agweddau. Mae'r adran yn teimlo bod y dysgwyr pontio yn teimlo'n gyfforddus i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwersi Addysg Grefyddol e.e. un dasg estynedig heriol wedi cael ei chwblhau yn y Gymraeg gan un disgybl pontio. |
| Gweithredu strategaeth iaith yr ysgol gan gynnwys defnydd anffurfiol o`r Gymraeg | Mae'r adran yn gweithredu strategaeth iaith yr ysgol. Mae'r adran yn darparu'r cyfleoedd gorau i'r dysgwyr ddatblygu'n hyderus yn ddwyieithog ac i feithrin hyder ar sgiliau ieithyddol angenrheidiol i drafod testunau amrywiol o fewn y pwnc trwy gyfrwng y ddwy iaith. Mae'r adran wedi adnabod tasgau penodol ble cyflwynir y pwnc drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r adran hefyd yn dilyn polisi marcio'r ysgol ac wedi mabwysiadau dulliau cytunedig penodol sydd yn hyrwyddo sgiliau llafar, ysgrifenedig a darllen y disgyblion sydd i'w gweld ym mholisi llythrennedd yr ysgol. Mae termau pynciol yn cael eu rhoi yn ddwy ieithog ar ddechrau pob uned i'r dysgwyr. Disgwylir I ddisgyblion barhau i ddilyn yr un cyfrwng ag a ddefnyddiwyd yng nghyfnod allweddol 3. Gweler y cynlluniau gwaith am enghreifftiau o dasgau penodol. |
| Dysgu dwyieithog | Caiff gwersi eu cynllunio er mwyn sicrhau fod pob dysgwr, yn unol a`i feistrolaeth ar y Gymraeg a`r Saesneg, yn cael eu cynnwys yn llawn yn y wers. Yn sgîl y ddarpariaeth hon mae safonau cyflawniad a chynnydd dysgwyr yn dda. |
| **Tystiolaeth** | |

- Llyfrau dysgwyr.
- Adroddiadau gwersi.
- Fforwm disgyblion.
- Gweithrediad adrannol o strategaeth iaith yr ysgol.

| Crynodeb o faterion i roi sylw iddynt | | |
|---|---|---|
| **Agwedd** | **Cryfderau** | **Materion ar gyfer gweithredu pellach** |

| | Barn gryno Cwestiwn 1<br>Safonau |
|---|---|
| | **Adran Addysg Grefyddol** |

| | | |
|---|---|---|
| **1.1 Cyflawniad a chynnydd mewn dysgu** | • Lefel cyfranogi a mwynhad disgyblion yn y gwersi.<br>• Gallu'r disgyblion i ateb yn estynedig ar lafar ac yn estynedig yn y pwnc<br>• Gallu'r disgyblion i alw i gof gwybodaeth flaenorol<br>• Technegau i hyrwyddo sgiliau ateb estynedig disgyblion ADY. | • Sicrhau bod yr adran yn cael cefnogaeth rheolaidd MH yn y gwersi (o Ionawr ymlaen) ac yn y wers ar ôl ysgol wrth baratoi'r disgyblion ar gyfer yr arholiadau allanol |
| **1.3 Safonau a chynnydd o ran medrau** | • Tasgau estynedig ysgrifennu<br>• sgiliau darllen y disgyblion<br>• Cynnwys termau yn ddwy ieithog ar ddechrau unedau<br>• Darparu nodiadau adolygu cyfrwng Saesneg er mwyn i rieni dysgwyr allu cynorthwyo'r disgyblion efo'r gwaith adolygu adref<br>• Sgiliau llafar y dysgwyr yn y pwnc<br>• Sgiliau darllen y dysgwyr yn y pwnc | • Cyfraniad pellach i'r fframawith digidol<br>• Parhau i weithredu'r strategaeth ôl ofal yn drylwyr.<br>• Parhau i ddatblygu'r drefn bod pob un o'r dysgwyr yn ymateb i waith marcio'r athro yn annibynnol |

Dyddiad adolygu: Gan: SR